Cyngor Celfyddydau Cymru

# Coronafeirws: Cymorth i Sefydliadau

## Cronfa Ymsefydlogi

# Cwestiynau Cyffredin

Ebrill 2020

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

## Cynnwys


Hanfodion y gronfa 3

Cymhwysedd - aelodau o'r Portffolio 3

Cymhwysedd - sefydliadau nad ydynt yn y Portffolio 4

Ymgeisio 7

Diffiniadau 8

Meini prawf a gwneud penderfyniadau 9

Materion ariannol 11

Maint y gronfa 16

Gwybodaeth a chymorth 17

Arian arall y Loteri Genedlaethol 18

Newidiadau i'r canllawiau yma 18


hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwyddeg Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

## Hanfodion y gronfa

| | |
|---|---|
| Beth yw'r gronfa ac ar gyfer pwy mae hi? | Mae'r **Gronfa Ymsefydlogi** ar gyfer sefydliadau sy'n aelodau o Bortffolio Celfyddydol Cymru a'r sefydliadau nad ydynt yn aelodau o Bortffolio Celfyddydol Cymru.<br><br>Rydym ni am roi'r cyfle gorau i sefydliadau oroesi argyfwng coronafeirws. Felly mae'r gronfa'n cefnogi sefydliadau i ymsefydlogi a'u helpu i'w cynnal eu hunain yn ystod y misoedd nesaf.<br><br>**Dalier sylw:**<br><br>**Nid yw pob sefydliad yn y Portffolio yn gymwys i ymgeisio i'r gronfa yma.** (Gweler isod dan 'Cymhwysedd' am ragor o wybodaeth.) |
| Faint y gallaf ymgeisio amdano? | Grant o hyd at **£35,000** i'w ddefnyddio yn y chwe mis ar ôl cael dyfarniad y grant.<br><br>Mewn amgylchiadau eithriadol gall aelodau o'r Portffolio ymgeisio am swm uwch. Mewn rhai achosion adlewyrcha hyn faint a graddfa'r sefydliad a'i fodel busnes. Ond bydd angen iddynt ofyn yn gyntaf, drwy eu swyddog arweiniol, am gytundeb y Cyngor i wneud hynny. |
| Pryd gallaf ymgeisio? | Mae'r gronfa yn agor i gais **ddydd Mawrth 21 Ebrill 2020** a'r dyddiad cau i ymgeisio ar-lein yw **5pm ddydd Gwener 8 Mai 2020.** |

## Cymhwysedd - aelodau o'r Portffolio

| | |
|---|---|
| Pa aelodau o'r Portffolio all ymgeisio? | Dim ond y sefydliadau yma yn y Portffolio a all ymgeisio i'r gronfa:<br><br>• y rhai y mae eu harian refeniw gan y Cyngor yn **llai na** 55% o gyfanswm eu hincwm (ar gyfartaledd dros y tair blynedd 2016/17, 2017/18 a 2018/19)<br><br>• y rheini sy'n gallu dangos eu bod wedi mynd ar ôl pob posibilrwydd arall o gael cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru a Phrydain |

| | |
|---|---|
| | • y rheini sy'n gallu dangos eu bod yn rhyddhau'r swm rhesymol mwyaf posibl o unrhyw arian sydd ganddynt wrth gefn i oroesi |
| Pa sefydliadau Portffolio na all ymgeisio? | Ni ddisgwyliwn ichi ymgeisio os:<br><br>• yw eich arian refeniw o'r Cyngor yn **fwy na** 55% o gyfanswm eich incwm (ar gyfartaledd dros y tair blynedd 2016/17, 2017/18 a 2018/19)<br><br>• yw eich arian wrth gefn a/neu arian y Cyngor yn ddigon i'ch cynnal am chwe mis<br><br>• ydych yn adran o sefydliad mwy (megis awdurdod lleol, prifysgol neu'r BBC<br><br>Os yw'r eithriadau yma'n bygwth parhad eich sefydliad, trafodwch y sefyllfa gyda ni. |
| Pam na all pob sefydliad yn y Portffolio ymgeisio? | Mae'r sefydliadau yn y Portffolio at ei gilydd yn cael arian refeniw sylweddol gan y Cyngor. Mewn ymateb i argyfwng coronafeirws, rydym wedi llacio'r amodau ariannu arferol ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn. Felly credwn y gall y mwyafrif o sefydliadau yn y Portffolio oroesi yn y tymor byr ar yr arian yna. Rydym ni'n disgwyl na fydd y rhan fwyaf o'r Portffolio yn gorfod ymgeisio i'r gronfa.<br><br>Ein blaenoriaeth yw'r sefydliadau yn y Portffolio sy'n cael cyfran lai o gyfanswm eu hincwm. Mewn llawer o achosion, mae'r sefydliadau yma'n wynebu pwysau llif arian difrifol. |

## Cymhwysedd - sefydliadau nad ydynt yn y Portffolio

| | |
|---|---|
| Pa sefydliadau nad ydynt yn y Portffolio all ymgeisio? | Rhaid inni fod yn siŵr bod eich sefydliad wedi'i sefydlu'n iawn. Os nad ydych chi erioed wedi ymgeisio inni am arian, bydd raid ichi:<br><br>• cynnwys copi wedi'i lofnodi o'ch dogfen lywodraethu wrth ymgeisio<br><br>Os ydych chi wedi ymgeisio inni am arian yn y gorffennol: |

- rhaid cynnwys copi wedi'i lofnodi o'ch dogfen lywodraethu os nad ydych chi wedi cyflwyno un inni yn y ddwy flynedd diwethaf neu os yw'r ddogfen wedi'i diweddaru ers ichi ymgeisio ddiwethaf

Gallwch ymgeisio os ydych yn sefydliad:

- **sydd** yng Nghymru, ac wedi'i gyfansoddi'n ffurfiol fel un o'r canlynol:
  - cwmni cyfyngedig drwy warant
  - elusen gofrestredig (gan gynnwys ymddiriedolaethau elusennol)
  - sefydliad elusennol ymgorfforedig
  - cwmni buddiannau cymunedol
- **nad** yw wedi'i strwythuro'n fasnachol nac yn gwmni sy'n dosbarthu elw
- sy'n gweithio yn bennaf (dros 50%) yn un o'n disgyblaethau a gefnogir (cerddoriaeth, dawns, y theatr, llenyddiaeth, y celfyddydau gweledol a chymhwysol, y celfyddydau cyfun)
- a chanddo hanes o weithio yn y sector diwylliant a ariennir gan y cyhoedd (yn y tair blynedd diwethaf) gan gynnwys gweithio mewn/gyda llyfrgelloedd
- sy'n cyflawni'r rhan fwyaf o'i waith (dros 60%) yng Nghymru
- sydd â pherson atebol o leiaf 18 mlwydd oed ymhlith ei reolwyr
- a chanddo gyfeiriad cofrestredig yng Nghymru
- a chanddo gyfrif banc ym Mhrydain yn yr un enw ag sydd yn eich cais ac sydd ag o leiaf ddau berson a all awdurdodi trafodion

| | |
|---|---|
| A oes raid wrth drefniadau llywodraethu arbennig i'r gwahanol fathau o gwmni? | Os ydych chi'n **Gwmni Cyfyngedig gan Warant, Sefydliad Elusennol Ymgorfforedig, Cwmni Budd Cymunedol** neu **Ymddiriedolaeth Elusennol**:<br><br>• rhaid i'ch sefydliad feddu ar ddau ymddiriedolwr o leiaf nad ydynt yn perthyn i'w gilydd ac nad ydynt yn byw yn yr un cyfeiriad<br><br>A rhaid i'ch dogfennau llywodraethu fod yn:<br><br>• llofnodedig gan o leiaf ddau ymddiriedolwr<br>• cofrestredig gyda Thŷ'r Cwmnïau a/neu'r Comisiwn Elusennau<br>• nodi bod cyfarfodydd rheolaidd o'r bwrdd i'w cynnal<br>• cynnwys cworwm priodol am benderfyniadau<br><br>Os ydych chi'n **Gwmni Cyfyngedig gan Gyfrandaliadau**:<br><br>• rhaid i'ch sefydliad feddu ar ddau ymddiriedolwr o leiaf nad ydynt yn perthyn i'w gilydd ac nad ydynt yn byw yn yr un cyfeiriad<br><br>A rhaid i'ch dogfennau llywodraethu fod yn:<br><br>• llofnodedig gan o leiaf ddau ymddiriedolwr<br>• cofrestredig gyda Thŷ'r Cwmnïau a/neu'r Comisiwn Elusennau<br>• nodi bod cyfarfodydd rheolaidd o'r bwrdd i'w cynnal<br>• cynnwys cworwm priodol am benderfyniadau<br><br>Os ydych yn **Gymdeithas Anghorfforedig**:<br><br>• rhaid i'ch sefydliad feddu ar ddau ymddiriedolwr o leiaf nad ydynt yn perthyn i'w gilydd ac nad ydynt yn byw yn yr un cyfeiriad |

| | |
|---|---|
| | A rhaid i'ch dogfennau llywodraethu fod yn:<br><br>• llofnodedig gan o leiaf ddau ymddiriedolwr<br>• nodi bod cyfarfodydd rheolaidd o'r bwrdd neu gorff llywodraethol i'w cynnal<br>• cynnwys cworwm priodol am benderfyniadau |

## Ymgeisio

| | |
|---|---|
| Am beth y gallaf ymgeisio? | Gellir defnyddio'r arian i dalu am:<br><br>• gweithgarwch i **alluogi eich sefydliad i oroesi** yn wyneb effaith ariannol coronafeirws, er enghraifft:<br>– newidiadau brys i'ch model busnes<br>– costau gweithredol hanfodol (fel rhent a chostau staff)<br>– costau TG a chostau eraill sy'n gysylltiedig ag offer i alluogi gweithio gartref<br>– cymorth gyda phwysau llif arian<br><br>• datblygu a chyflwyno gweithgarwch **sy'n gyflawnadwy yn ystod y chwe mis nesaf** gan gynnwys:<br>– prosiectau datblygu yn barod at ailgychwyn eich gwaith arferol, er enghraifft datblygu sefydliadol<br>– prosiectau sy'n wynebu'r cyhoedd, er enghraifft gweithgarwch digidol/ar-lein |
| Beth na allaf ymgeisio amdano? | Ni allwch ymgeisio ar gyfer:<br><br>• creu gwaith newydd na ellir ei gyflawni ar hyn o bryd (er enghraifft, gwaith teithiol)<br>• unrhyw weithgarwch arall y byddech yn ymgeisio fel arfer am grant prosiect Loteri Genedlaethol y Cyngor |

| | |
|---|---|
| | • costau neu golledion nad ydynt o ganlyniad i goronafeirws<br>• unrhyw ddyled hanesyddol gan eich sefydliad |

## Diffiniadau

| | |
|---|---|
| Beth yw Portffolio Celfyddydol Cymru? | Rhwydwaith ledled Cymru o 67 sefydliad sy'n derbyn arian refeniw gan y Cyngor i dalu am eu rhaglenni gwaith drwy gydol y flwyddyn. |
| Beth yw arian cyhoeddus? | Mae'n rhaid eich bod wedi cael grant i gyflawni gwaith – neu wedi bod yn rhan o brosiect lle'r oedd arian grant yn mynd i sefydliad arall.<br><br>Gall hyn gynnwys arian gan gyrff fel Cyngor Celfyddydau Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, awdurdodau lleol, prifysgolion, cyrff y sector cyhoeddus, ymddiriedolaethau, sefydliadau ac ati. |
| Beth yw costau gweithredol brys? | Bydd y rhain yn wahanol i wahanol fathau o sefydliadau, felly chi sy'n dweud wrthym beth sydd ei angen arnoch.<br><br>Gallai, er enghraifft, fod yn:<br><br>• rhent neu gostau adeiladu eraill<br>• costau staff<br>• gorbenion megis cyfleustodau (nwy, trydan, dŵr ac ati), yswiriant<br>• costau sy'n gysylltiedig â chadw eich sefydliad ar waith dros y chwe mis nesaf |

## Meini prawf a gwneud penderfyniadau

| | |
|---|---|
| Beth yw ein blaenoriaethau? | Mae gennym ddwy flaenoriaeth gyffredinol:<br><br>• Y cyntaf yw cynnal ymarfer artistig a buddsoddi mewn meithrin gwytnwch unigolion.<br><br>• Yr ail yw annog celfyddydau Cymru i fod yn fwy cynhwysol a phellgyrhaeddol. Rydym ni am i'r prosiectau a ariannwn ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob peth a wnânt. Rydym ni am i fwy o bobl mewn cymunedau a lleoedd sy'n cael eu gwasanaethu'n llai gan y celfyddydau a ariennir yn gyhoeddus gael rhagor o gyfle i fwynhau gweithgarwch diwylliannol a chymryd rhan ynddo. Mae'n bwysig inni weithio gyda phobl fyddar a phobl anabl a throstynt. Byddwn ni'n disgwyl ichi ddangos sut rydych chi wedi ystyried hyn yn eich cais. |
| A oes meini prawf penodol ar gyfer y gronfa? | Caiff ceisiadau eu hasesu yn ôl y meini prawf canlynol:<br><br>• graddau a brys yr angen ariannol sydd yn eich cais<br><br>• cryfder creadigol a/neu artistig y prosiect neu'r gweithgarwch, neu ei gyfraniad at gefnogi creadigrwydd mewn eraill<br><br>• i ba raddau y mae'r prosiect neu'r gweithgarwch yn bodloni ein blaenoriaethau<br><br>• cryfder effaith y prosiect neu'r gweithgarwch ar eich gwaith a'r budd i eraill, nawr ac yn y dyfodol<br><br>• cryfder y cynlluniau ymarferol i reoli a chyflawni'r prosiect neu'r gweithgarwch, gan gynnwys cynlluniau ariannol<br><br>• cydbwysedd y gweithgarwch a'r ariannu ar draws y celfyddydau, y disgyblaethau, y cymunedau a'r lleoedd ledled Cymru |

| | |
|---|---|
| | Rydym ni am sicrhau bod sector y celfyddydau a diwylliant yn cynrychioli ein cymdeithas. Gobeithio y bydd yr arian yma’n galluogi’r amrywiaeth ehangaf o ymarferwyr creadigol i gael digon o incwm fel y gallant barhau i weithio'n llwyddiannus yn y dyfodol. Felly rydym ni’n croesawu'n arbennig geisiadau gan bobl dduon, pobl Asiaidd, pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, pobl fyddar a phobl anabl.<br><br>Wrth benderfynu’n derfynol, byddwn ni’n ystyried cydbwysedd gweithgarwch ac arian ar draws y celfyddydau, y disgyblaethau a’r lleoedd ledled Cymru. |
| Oes gennych chi fwy o siawns o lwyddo os ydych chi'n sefydliad Portffolio? | Nac oes – bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ei rinwedd ei hun ac ar sail cryfder a brys ei achos. |
| Pryd byddaf yn cael gwybod am y penderfyniad? | Ein nod yw penderfynu mewn **4 wythnos** o’r dyddiadau cau. Os na allwn wneud hyn am unrhyw reswm, byddwn ni’n rhoi gwybod ichi. |
| Os byddaf yn llwyddiannus, pryd byddwn yn cael yr arian? | Byddwn ni’n awdurdodi taliadau cyn gynted ag y cawn eich nodyn derbyn grant ac ar ôl cael cyfle i wirio eich manylion banc. Byddwn ni fel arfer yn talu 90% o unrhyw grant ar unwaith gyda'r gweddill ar ddiwedd eich prosiect neu'ch gweithgarwch. |
| A fydd rhagor o rowndiau i'r gronfa? | Dim ond un rownd sydd ar hyn o bryd. Ond byddwn ni’n parhau i gadw golwg ar y sefyllfa yn ystod y flwyddyn i weld pa mor hir y bydd coronafeirws yn parhau. |
| A allaf ymgeisio i'r gronfa ymsefydlogi i unigolion os ydw i eisoes wedi cael arian o’r gronfa ymateb brys? | Gallwch. |
| A yw gwaith teithiol yn gymwys? | Nac ydy – dim ond ar gyfer y mathau o weithgarwch a restrir yn y canllawiau y gall sefydliadau ymgeisio. Ni fyddwn ni’n gallu ariannu ceisiadau sy'n cynnwys gwaith teithiol sydd yn y dyfodol. |

| | |
|---|---|
| A allaf ymgeisio yn awr am waith a fydd yn digwydd y flwyddyn nesaf?<br><br>Beth am deithiau sydd eisoes wedi cael eu harchebu am yn ddiweddarach yn y flwyddyn y mae angen arian arnynt i ddigwydd? | Mae'r gronfa'n canolbwyntio ar gynnig cymorth ariannol brys a fydd yn gwarchod ein celfyddydau a'n diwylliant yn ystod yr argyfwng.<br><br>Oni bai y bydd yn cael ei ddarparu'n ddigidol neu ar-lein, ni all y gronfa ariannu unrhyw waith sydd ar gyfer cynulleidfaoedd byw, hyd yn oed os yw'r gwaith wedi'i gynllunio i ddigwydd yn nes ymlaen yn y flwyddyn neu yn y dyfodol.<br><br>Ni allwn ariannu unrhyw weithgarwch arall y byddech chi fel arfer yn gwneud cais am grant prosiect y Loteri Genedlaethol a fydd yn digwydd yn bellach i'r dyfodol na'r chwe mis nesaf. |
| Beth fydd y gyfradd lwyddo? | Ni allwn ddweud ar hyn o bryd. Yn naturiol, gobeithiwn allu ariannu cynifer o geisiadau da ag sy'n bosibl, ond ni allwn wybod beth fydd y gyfradd lwyddo nes inni weld faint o bobl sy'n ymgeisio. |
| A wnewch chi gyhoeddi enwau'r bobl a gafodd arian? | Gwnawn. Fel cyllidwr cyhoeddus, rhaid inni gyhoeddi enwau a manylion bras pawb sy'n derbyn arian oddi wrthym. |

## Materion ariannol

| | |
|---|---|
| Os gallaf sicrhau arian arall ar gyfer fy mhrosiect a fydd hynny'n gwella fy siawns o lwyddo? | Nid yw cael arian arall yn ofynnol. Ond wrth gwrs nod ein harian yw ategu arian arall, yn hytrach na'i ddyblygu.<br><br>Dim ond os na allwch gael arian i dalu am gostau llawn eich prosiect neu'ch gweithgarwch o rywle arall y dylech ymgeisio am arian oddi wrthym ni.<br><br>Gallwch ofyn am yr arian sydd ei angen arnoch (hyd at uchafswm y gronfa). Ond o gofio bod yr arian yn gyfyngedig, rydym ni'n awyddus i ariannu cynifer o bobl ag y gallwn. Bydd ceisiadau sy'n gofyn am lai o arian wrth gwrs yn cynrychioli achos mwy darbwyllol dros eu hariannu. |

| | |
|---|---|
| Sut y byddai'r arian yma'n effeithio ar fy nghais am unrhyw gymorth arall? | Ni allwn roi cyngor ar sut y gallai ein harian effeithio ar unrhyw gymorth neu arian arall. Cofiwch y gallai fod hefyd oblygiadau o ran treth. Am gyngor am hynny dylech gysylltu â Thollau a Chyllid ei Mawrhydi. |
| Pa fath o brawf sydd ei angen arnaf i ddangos colli incwm? | Rhaid dweud wrthym am unrhyw incwm rydych chi wedi'i golli. Efallai y byddwn ni'n cysylltu â chi i ofyn am dystiolaeth o hyn yn ddiweddarach, felly cadwch gofnod (fel eich cofnodion eich hun, negeseuon e-bost, copïau o gontractau ac ati). |
| A oes angen 10% o arian cyfatebol arnaf? | Nac oes, nid oes angen arnoch unrhyw arian cyfatebol. |
| A oes angen imi roi cyllideb ichi ar gyfer sut y byddwn yn gwario'r arian? | Oes. Mae llenwi templed cyllidebol syml a byr yn rhan o'r broses. Byddwn ni hefyd yn gofyn ichi am y llif arian inni weld sut y byddwch chi'n rheoli'r arian.<br><br>Dylai'r llif arian fod ar gyfer y cyfnod o chwe mis o ddyddiad eich cais. |
| Sut ydw i'n llenwi cyllideb y prosiect? | Mae'n dibynnu ar beth yn union rydych chi'n ymgeisio amdano.<br><br>Os ymgeisiwch am brosiect neu weithgarwch, rhaid uwchlwytho cyllideb brosiect i adran atodiadau eich cais. Rhaid i'r gyllideb fod ar y templed sydd yn y ffurflen gais. Ar ôl cyflwyno eich cais, ni fydd modd ichi newid y gyllideb felly cynhwyswch bob cost yno.<br><br>Dyma'r tudalennau mae'n rhaid ichi eu llenwi:<br><br>• **Crynodeb** – llenwch enw'r sefydliad a theitl y prosiect. Bydd gweddill y celloedd yn cael eu llenwi'n awtomatig pan lenwch adrannau'r gwariant, yr incwm a'r costau hygyrchedd (os oes rhai)<br><br>• **Gwariant** – dyma'r tudalen lle nodwch y costau o gynnal y prosiect<br><br>• **Incwm** – yma bydd yr arian a gewch o ran eich prosiect |

| | |
|---|---|
| | • **Costau hygyrchedd** – costau cefnogi hygyrchedd personol i chi, neu unrhyw un sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â chynnal eich prosiect yn greadigol<br><br>Dangoswch yn eich cyllideb sut rydych chi wedi cyrraedd y ffigyrau yno. |
| Sut ydw i'n llenwi adran wariant y gyllideb? | Dangoswch yn eich cyllideb sut rydych chi wedi cyrraedd y ffigyrau yno.<br><br>Dim ond costau rhesymol y dylech eu cynnwys sy'n berthnasol i'ch sefydliad a'ch sefyllfa bresennol.<br><br>Nodwch y rhain mor llawn ac mor gywir â phosibl.<br><br>Rhowch fanylion am sut roeddech chi wedi cyrraedd y ffigyrau. Er enghraifft, dylid manylu ar gostau artistiaid neu wariant cyfalaf rhesymol. |
| Beth am TAW? | Os ydych chi'n gofrestredig am TAW, ni ddylai eich ffigyrau gwariant gynnwys TAW y gallwch ei adhawlio (sef TAW y gellir ei hadennill). Dylech gynnwys unrhyw TAW y disgwyliwch ei chael ond heb allu ei hadhawlio (TAW na ellir ei hadennill) fel categori gwariant ar wahân. Dylech hefyd esbonio sut roeddech chi wedi cyrraedd y ffigwr yma.<br><br>Os nad ydych chi'n gofrestredig am TAW, dylai eich costau gynnwys TAW. |
| Sut ydw i'n llenwi'r adran wariant? | Dangoswch yn eich cyllideb sut rydych chi wedi cyrraedd y ffigyrau yno.<br><br>Mae 5 adran:<br><br>Cais am grant gan y Cyngor<br>Nodwch y swm a geisiwch oddi wrthym.<br><br>Eich arian eich hun<br>Faint o'ch arian eich hun rydych chi'n ei gyfrannu at y prosiect? |

| | |
|---|---|
| | **Incwm a enillir**<br>Nodwch unrhyw incwm rydych chi'n disgwyl ei ennill o'ch prosiect. Byddwch yn realistig am yr incwm rydych chi'n debygol o ennill o'ch gweithgarwch.<br><br>**Arian arall**<br>Mae cael arian arall i'ch prosiect yn neges inni fod cefnogaeth ehangach i'ch prosiect. Byddwch yn realistig am lefel yr arian arall rydych chi'n gobeithio ei gael.<br><br>**Cefnogaeth mewn nwyddau**<br>Gall fod yn:<br><br>• amser gan wirfoddolwyr<br>• benthyg offer<br><br>Ni all cefnogaeth mewn nwyddau ddod o'ch adnoddau eich hun na bod yn ddisgownt gan gyflenwr. |
| Sut ydw i'n llenwi adran y crynodeb? | Dyma grynodeb o'ch holl wariant a'ch holl incwm. Dylai'r balans fod yn £0.<br><br>Dangosir wedyn faint o grant rydych chi'n ymgeisio amdano a'r lefel ganrannol. Rhaid i'r ganran fod yn dderbyniol o ran ein cyfyngiadau ariannu.<br><br>Os oes unrhyw gostau hygyrchedd, dangosir y rhain hefyd.<br><br>Bydd cyfanswm arian y Cyngor yn cynnwys y cais am grant prosiect ac unrhyw gostau hygyrchedd. Dyma'r ffigwr i'w gynnwys yn y ffurflen gais dan Swm a geisiwch. |
| Mae gennyf ofynion hygyrchedd, pa gymorth y gallaf ei gael i lenwi'r cais? | Os oes gennych ofynion hygyrchedd, gallwch gysylltu â'n tîm grantiau a gwybodaeth: grantiau@celf.cymru |
| A allaf gynnwys costau hygyrchedd personol yn fy nghyllideb prosiect? | Gallwn ni helpu gyda chostau hygyrchedd personol i chi, neu unrhyw un sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â chynnal eich prosiect yn greadigol. Gallai'r rhain gynnwys costau dehonglydd, gweithwyr cefnogi, offer arbenigol neu feddalwedd. |

| | |
|---|---|
| | Yn eich cyllideb, dadansoddwch y costau hygyrchedd. Er enghraifft: Gweithiwr cefnogi: £ y dydd, X dydd<br><br>Mae'r cyfanswm yma ar wahân i'r swm a geisiwch i gynnal y prosiect. Bydd y cyfanswm yn cael ei roi ar ben cyfanswm y cais am grant. |
| Beth yw costau hygyrchedd? | Yn y cyd-destun yma, gall costau hygyrchedd gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:<br><br>• cymorth gofal personol yn y cartref<br>• help gyda chludiant<br>• teithio i apwyntiadau meddygol<br>• cynorthwyydd personol<br>• cymorth ychwanegol gan therapydd ar ben yr hyn rydych chi'n ei dderbyn ar hyn o bryd<br>• eiriolwr<br>• cymorth cyfathrebu fel cyfieithydd Arwyddeg (BSL), rhywun i gymryd nodiadau, cyfieithydd llafar i destun, siaradwr gwefusau, disgrifiad clywedol, hwyluso neu gyfieithu dogfennau i fformat hawdd ei ddarllen neu fformatau eraill fel print bras neu sain, cymorth cyfieithu os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf<br>• cymorth cyfathrebu o bell neu brynu meddalwedd ac offer i ddarparu cymorth cyfathrebu |
| Pa dystiolaeth fanc sydd raid imi ei chyflwyno? | Rhaid inni gael tystiolaeth i gysylltu popeth a phrofi:<br><br>• mai enw'r cyfrif yw eich enw cyfreithiol<br>• bod y cyfeiriad ar y cyfrif yng Nghymru<br>• y cod didoli |

| | |
|---|---|
| | • rhif y cyfrif<br><br>Rhaid i'r dystiolaeth fod:<br><br>• yn y ddwy flynedd diwethaf (ar ddyddiad y cais)<br><br>• cyfathrebiad banc swyddogol er enghraifft:<br>– ffoto o'r cerdyn banc i'r cyfrif sy'n dangos enw, rhif a chod didoli'r cyfrif. (Os nad yw'ch enw i'w weld ar y cerdyn, bydd angen inni gael rhagor o dystiolaeth sy'n eich cysylltu â'r cyfrif)<br>– Llythyr neu e-bost sy'n dangos yn glir mai'r banc a'i hanfonodd ac sy'n cadarnhau'r wybodaeth angenrheidiol<br>– Cipluniau o'r sgrin sy'n dangos eich bod wedi mewngofnodi i'ch bancio ar-lein ac sy'n dangos eich enw a'r wybodaeth am eich cyfrif<br><br>Efallai bydd raid ichi gynnwys sawl dogfen i brofi'r holl wybodaeth a dangos y cysylltiad yn glir.<br><br>Os llwydda eich cais, gwiriwn y wybodaeth drwy ofyn ichi am fanylion pellach am eich cyfrif. Ni allwn dalu unrhyw arian ichi nes inni gael y wybodaeth yma a'i gwirio.<br><br>**Dalier sylw:**<br><br>• Ni allwn dderbyn cyfrifon cymdeithas adeiladu sydd dim ond yn gweithio gyda llyfr pás.<br><br>• Ni allwn dderbyn cyfrifon ar y cyd ychwaith |

## Maint y gronfa

| | |
|---|---|
| Beth yw maint y gronfa? | Rydym ni'n anelu at roi tua 80% (£5.5 miliwn) o gyfanswm yr arian sydd ar gael i'r gronfa yma. |
| Sut byddwch yn rhannu'r arian rhwng y Portffolio a | Ar hyn o bryd nid ydym ni wedi penderfynu eto ar raniad arian terfynol rhwng y sefydliadau Portffolio a'r rhai nad |

| | |
|---|---|
| sefydliadau nad ydynt yn y Portffolio? | ydynt yn y Portffolio. Byddwn ni'n monitro nifer y ceisiadau a phenderfynu ar ôl gweld yr angen. |
| O ble y daeth yr arian? | Rydym ni wedi ailddyrannu rhywfaint o'n grant Llywodraeth Cymru ac mae'r Llywodraeth hefyd wedi cyfrannu arian ychwanegol at yr arian cyffredinol sydd ar gael. Rydym ni hefyd wedi gwneud y penderfyniad anodd i ohirio ein rhaglenni sy'n agored i gais o'r Loteri Genedlaethol am chwe mis ac ailgyfeirio arian i'r gronfa wytnwch. Byddwn ni'n adolygu'r sefyllfa yn ddiweddarach yn y flwyddyn a chyhoeddi pryd y gallwn ailagor y rhaglenni ariannu yma. |

## Gwybodaeth a chymorth

| | |
|---|---|
| Sut gallaf gael cymorth hygyrchedd wrth hunanynysu/ymbellhau'n gymdeithasol? | O ystyried y cyfyngiadau presennol, nid yw'n bosibl i gael cymorth wyneb yn wyneb (heblaw am roddwyr gofal rheolaidd). Byddwn ni'n parhau i gefnogi unigolion sydd â gweithwyr cymorth (gan gynnwys aelodau o'r teulu) drwy'r Gronfa Gymorth Hygyrchedd i ddehongli'r canllawiau a/neu ymgeisio.<br><br>Y peth gorau i'w wneud yw cysylltu â ni: grantiau@celf.cymru |
| A allaf siarad â swyddog y Cyngor? | Ni allwn gynnig cyngor un wrth un ar sut i ysgrifennu ceisiadau ar gyfer y gronfa.<br><br>Rydym ni wedi cynllunio'r broses i fod mor syml â phosibl, gan ofyn dim ond am yr wybodaeth sydd ei hangen arnom am eich amgylchiadau presennol.<br><br>Mae ein gallu i roi cyngor yn gyfyngedig iawn ar hyn o bryd, ond os oes gan unigolyn anghenion hygyrchedd a bod angen cymorth pellach arno i lenwi'r cais, gall gysylltu â: grantiau@celf.cymru |

## Arian arall y Loteri Genedlaethol

| | |
|---|---|
| Mae gennyf grant prosiect y Loteri Genedlaethol eisoes - a yw hynny'n effeithio arnaf i wrth ymgeisio am y gronfa yma? | Dylwn ni fod wedi cysylltu â chi erbyn hyn **inni drafod beth sy'n digwydd nesaf** gyda'r arian yna.<br><br>Os ydych chi'n cael arian arall gan y Cyngor, byddwn ni fel arfer yn disgwyl ichi drafod gyda chi sut y gellid defnyddio yr arian i gynnal eich gweithgareddau. Ond os nad yw'r arian yna'n ddigonol i ddiwallu eich anghenion brys, bydd raid ichi esbonio pam. |
| Pryd fydd grantiau prosiect y Loteri Genedlaethol yn ailagor? | Nid oes gennym ddyddiad ar hyn o bryd. Ond mae'n debygol y bydd ein rhaglenni agored i gais arferol yn aros ar gau am 6 mis cyntaf 2020/21. Gwyddom fod grantiau prosiect y Loteri Genedlaethol yn rhan hanfodol o gynllunio busnes llawer o unigolion a sefydliadau. Byddwn ni'n gwneud ein gorau glas i ailagor y rhaglenni yma ar y cyfle cyntaf. |

## Newidiadau i'r canllawiau yma

| | |
|---|---|
| A fyddwch yn gwneud unrhyw newidiadau i'r gronfa? | Rydym ni wedi cynllunio a lansio'r gronfa yma'n gyflym i ymateb yn gyflym i anghenion brys. Oherwydd hyn, byddwn yn parhau i adolygu ein prosesau i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau, yn enwedig o ran unrhyw gyhoeddiadau pellach gan y Llywodraeth ac amgylchiadau cyfnewidiol coronafeirws.<br><br>Os bydd angen inni wneud unrhyw newidiadau, byddwn ni'n rhoi gwybod ichi cyn gynted â phosibl. |